1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arfarniad o effeithiolrwydd rhaglenni HMS cenedlaethol CBAC

Hydref 2007

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir **2**

Prif ganfyddiadau **4**

Argymhellion **6**

Trefniadaeth **7**

Cynadleddau cenedlaethol **9**

Hyfforddiant **10**

Dyrannu hyfforddiant 10
Hyfforddwyr cynorthwyol 11
Deunyddiau hyfforddi 12

Arfarnu **14**

Gwerth am arian **15**

Cyflwyniad

1 Diben y cyngor hwn yw rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru am effeithiolrwydd rhaglenni hyfforddiant cenedlaethol CBAC ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn swydd (HMS) yr iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg.

2 Gwnaed y gwaith hwn fel rhan o gylch gwaith Estyn a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mawrth 2006.

3 Mae sail y dystiolaeth yn cynnwys:

- cyfweliadau â chynrychiolwyr o naw awdurdod addysg lleol (ALl), aelodau o grwpiau llywio ac aelodau gweithgorau;
- dadansoddiad o ddogfennaeth a ddarparwyd gan ALlau;
- cyfweliadau â swyddogion CBAC;
- dadansoddiad o ddogfennaeth a ddarparwyd gan CBAC; a
- dadansoddiad o'r adnoddau a grëwyd gan CBAC.

Cefndir

4 Ym 1989, sefydlwyd rhaglen genedlaethol hyfforddiant mewn swydd yr iaith Gymraeg gan CBAC. Sefydlwyd rhaglen genedlaethol o hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 2000. Diben y rhaglenni hyfforddi hyn yw:

- cynorthwyo awdurdodau lleol, ysgolion ac athrawon i wella safonau cyflawniad disgyblion sy'n dysgu Cymraeg neu Gymraeg fel ail iaith, a disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg trwy baratoi deunyddiau hyfforddi a darparu sesiynau hyfforddi yn unol â gofynion awdurdodau lleol, ysgolion ac athrawon a'r agweddau hynny a amlygir yn adroddiadau Estyn; a

- chynnig gwasanaeth ymgynghori i asiantaethau addysgol sy'n dylanwadu ar y ffordd y caiff Cymraeg, Cymraeg fel ail iaith ac addysg cyfrwng Cymraeg eu cyflwyno yn ysgolion Cymru.

5 Trwy ymgynghori â chynrychiolydd o bob awdurdod lleol (ALl) yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae rhaglen genedlaethol hyfforddiant mewn swydd yr iaith Gymraeg yn cefnogi agweddau ar addysgu Cymraeg a Chymraeg fel ail iaith trwy:

- baratoi pecynnau hyfforddi;

- darparu digwyddiadau hyfforddi; a

- chynnal cofrestr o hyfforddwyr cynorthwyol sydd ar gael i ddarparu hyfforddiant.

6 Mae'r rhaglen genedlaethol hyfforddiant mewn swydd Gymraeg yn cefnogi addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar agweddau ar holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol trwy gynnal cofrestr o hyfforddwyr cynorthwyol sydd ar gael i ddarparu hyfforddiant priodol.

7 Yn 2006-2007, dyrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £39.3 miliwn i'r Gronfa Ysgolion Gwell (CYG). Rhannwyd y cyfanswm hwn rhwng meysydd gweithgarwch datblygu'r cwricwlwm, hyfforddi llywodraethwyr, cymorth i ddisgyblion, anghenion dysgu ychwanegol, Iaith Pawb mewn ysgolion a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ysgolion. Fel rhan o weithgaredd 5: 'Iaith Pawb mewn ysgolion' y Gronfa Ysgolion Gwell, dyrannwyd £200,000 i CBAC i ariannu'r ddwy raglen HMS genedlaethol. Caiff y cyllid hwn ei weinyddu ar wahân i weddill y rhaglen Cronfa Ysgolion Gwell gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

8 Caiff rhaglenni cymorth Cymraeg a chyfrwng Cymraeg gymorth ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy ei Chronfa Ysgolion Gwell (CYG) a chan y 22 awdurdod lleol yng Nghymru trwy gytundeb lefel gwasanaeth â CBAC. Caiff 60% o'i gyllid ar gyfer y maes gwaith hwn yn uniongyrchol o'r Gronfa Ysgolion Gwell. ALlau unigol sy'n darparu'r 40% sy'n weddill.

9 Mae CBAC yn dosbarthu ei grant o £200,000 yn gyfartal rhwng y rhaglenni cenedlaethol iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg.

10 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu ei chyllid ar gyfer rhaglenni cenedlaethol CBAC ar hyn o bryd.

Prif ganfyddiadau

11 Mae gan CBAC strwythur trefniadaethol clir i sicrhau bod grant y CYG yn cael ei weinyddu'n briodol. Mae'n cyflogi swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol sy'n hwyluso gwaith rhwydwaith da o ymgynghorwyr ac ymarferwyr o bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r arbenigwyr hyn yn rhoi gwybodaeth ac arbenigedd da a chyfredol i'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol o'u sectorau addysgol. Maent yn helpu gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y ddwy raglen hyfforddiant mewn swydd.

12 Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg wedi'u datblygu cystal ac y maent ar gyfer rhaglen hyfforddiant mewn swydd yr iaith Gymraeg. Nid yw'r grŵp llywio cyfrwng Cymraeg mor effeithiol o ran dylanwadu ar ddatblygiadau hyfforddi ar lefel genedlaethol o'i gymharu â'r grŵp llywio ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg.

13 Mae CBAC yn trefnu pedair cynhadledd genedlaethol ddeuddydd, briodol bob blwyddyn ar gyfer ymarferwyr o bob cwr o Gymru. Mae'r cynadleddau yn rhoi cyfleoedd da i athrawon ac ymgynghorwyr drafod agweddau ar eu gwaith gyda chydweithwyr o bob cwr o Gymru. Maent hefyd yn rhoi cyfleoedd i gynrychiolwyr ddysgu am waith arbenigwyr addysg o Gymru a thu hwnt. Mae staff ALl yn dweud bod yr hyfforddiant hwn yn ehangu ac yn cyfoethogi profiad athrawon ac mae'n cynnig her dda a newydd o ran y ffordd y maent yn gweithio.

14 Caiff pob ALl ddyraniad neu gwota hyfforddiant blynyddol gan CBAC. Mae hyblygrwydd y system gwota yn galluogi ALlau i gynllunio darpariaeth hyfforddiant yn seiliedig ar anghenion a nodwyd ar lefel leol. Cyfrifir dyraniad neu gwota hyfforddiant i bob ardal ALl ar gyfer hyfforddiant mewn swydd yr iaith Gymraeg yn ôl nifer y disgyblion oed ysgol yn ardal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn sicrhau bod cyfatebiaeth dda a theg rhwng lefel yr angen a nifer y cyfleoedd hyfforddi mewn ardaloedd ALl.

15 Mae dyraniad hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn golygu bod mwy o gyfleoedd hyfforddi ar gael i athrawon mewn ardaloedd lle bydd canran uchel o ddisgyblion yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg na mewn ardaloedd lle mae canran isel o ddisgyblion yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod angen i ysgolion ar draws pob ardal awdurdod lleol gyflwyno cwricwlwm tebyg. Mae hyn yn golygu nad oes gwasgariad cyfartal o hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar draws pob ALl.

16 Gall pob ALl a'u hysgolion ddefnyddio'u cwota i fuddsoddi mewn hyfforddiant o gofrestr o hyfforddwyr cynorthwyol arbenigol a gynhelir gan CBAC. Mewn llawer o achosion, mae ALlau yn dibynnu ar y wybodaeth ar y gofrestr i'w galluogi i nodi hyfforddwyr sydd â'r arbenigeddau cywir i fodloni eu hanghenion. Fodd bynnag, nid oes meini prawf cytûn ar gyfer cynnwys hyfforddwyr cynorthwyol ar y gofrestr.

17 Yn ogystal â darparu hyfforddiant hyblyg o ansawdd da, mae CBAC yn datblygu ystod dda o ddeunyddiau hyfforddi. Mae staff a gafodd eu cyfweld yn nodi bod deunyddiau hyfforddi CBAC yn cael eu defnyddio'n helaeth ac yn dda gan athrawon a staff ALl. Mae'r hyfforddwr cenedlaethol yn gweithio'n agos gydag athrawon, athrawon ymgynghorol ac ymgynghorwyr i sicrhau bod deunyddiau hyfforddi yn addas at eu diben a'u bod yn cyfateb yn agos i anghenion a nodwyd mewn ardaloedd awdurdod lleol neu drwy flaenoriaethau cenedlaethol. Mae llawer o ddeunyddiau hyfforddi ar gael trwy wefannau CBAC a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru (GCaD Cymru)[1] a fformatiau fel CD-ROM a DVD.

18 Mae gan CBAC weithdrefnau ffurfiol cyfyngedig ar waith i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a gyflwynir ar ei ran gan hyfforddwyr cynorthwyol. Caiff CBAC gopïau o'r holl ffurflenni arfarnu a ddefnyddir gan ALlau i arfarnu cyrsiau. Fodd bynnag, nid yw CBAC yn rhoi arweiniad i ALlau ar y wybodaeth benodol y mae angen iddynt ei chasglu i arfarnu'r ddarpariaeth. Nid yw CBAC yn mesur yn ffurfiol yr effaith y caiff ei hyfforddiant a'i ddeunyddiau hyfforddi ar wella'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

19 Mae'r defnydd a wna ALlau o'u dyraniad hyfforddiant yn cynrychioli gwerth da am arian. Mae staff ledled ardaloedd awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i rannu rhai digwyddiadau hyfforddi. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth rhwng ALlau o ran eu polisïau ar ryddhau staff ar gyfer HMS a chaniatáu iddynt fynychu sesiynau y tu allan i'r awdurdod. Mae lle felly i wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau.

[1] Rheolir y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru gan CBAC ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cynnwys adnoddau addysgol y gellir eu lawr lwytho sy'n cefnogi pob cyfnod o'r cwricwlwm cenedlaethol.

Argymhellion

20 Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn effeithiolrwydd rhaglen hyfforddiant genedlaethol CBAC ar gyfer hyfforddiant mewn swydd iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg, mae angen cymryd y camau canlynol;

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 barhau i ddarparu'r Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer rhaglen hyfforddiant genedlaethol CBAC ar gyfer y ddarpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg.

Dylai CBAC:

A2 weithio gyda phartneriaid priodol i wneud yn siwr bod y rhaglen hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg yn ymateb yr un mor effeithiol i anghenion hyfforddi ag y mae rhaglen hyfforddiant mewn swydd yr iaith Gymraeg;

A3 sicrhau bod athrawon o bob cwr o Gymru yn elwa yn gyfartal ar ystod dda o hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg trwy adolygu priodoldeb a gweithrediad y fformiwla ar gyfer dyrannu cwotâu hyfforddi;

A4 ymgymryd ag hunanarfarniad cynhwysfawr blynyddol o weithrediad y rhaglenni drwy ei bwyllgorau llywio;

A5 gweithio gydag ALlau i gefnogi datblygiad offeryn asesu effaith i ymgynghorwyr ar gyfer adrodd yn ôl i CBAC er mwyn nodi llwyddiant y rhaglenni wrth wella safonau;

A6 rhoi meini prawf cytûn yn eu lle ar gyfer cynnwys hyfforddwyr cynorthwyol ar y gofrestr a sefydlu system ffurfiol i fonitro ansawdd yr hyfforddiant; a

A7 pharhau i weithio'n agos ag ALlau i sicrhau bod y deunyddiau a'r hyfforddiant a ddarperir yn addas at eu diben.

Dylai Awdurdodau Lleol:

A8 barhau i gefnogi'r rhaglenni hyfforddi Cymraeg a chyfrwng Cymraeg trwy weithio mewn partneriaeth gyda CBAC a rhyddhau staff i gymryd rhan mewn gweithgorau;

A9 parhau i ariannu'r rhaglenni; a

A10 datblygu offeryn hunanasesu i adrodd yn ôl i CBAC am lwyddiant y rhaglenni.

Trefniadaeth

21 Mae CBAC yn cyflogi swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol i weinyddu'r rhaglen genedlaethol hyfforddiant mewn swydd Gymraeg a'r rhaglen genedlaethol hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg ar ei rhan. Cefnogir y swyddog datblygiad proffesiynol gan swyddog gweinyddu am ryw 0.5 o swydd amser llawn. Mae CBAC hefyd yn rhoi cymorth arbenigol da i'r swyddog datblygiad porffesiynol cenedlaethol mewn meysydd fel dylunio a chyhoeddi. Mae'r gwasanaethau hyn yn sicrhau bod y deunyddiau a gynhyrchir gan y rhaglen hon yn gyson ag ansawdd cyhoeddiadau eraill CBAC.

22 Caiff grant £200,000 y CYG ei rannu'n gyfartal rhwng y ddwy raglen hyfforddiant mewn swydd. Mae CBAC yn talu am rai agweddau ar y gwasanaethau corfforaethol a ddarperir i gefnogi'r rhaglenni.

23 Mae'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol yn gyfrifol am:

- ddatblygu pecynnau hyfforddi i gefnogi hyfforddiant mewn swydd;
- trefnu pedair cynhadledd genedlaethol ddeuddydd;
- recriwtio a chynnal cofrestr o hyfforddwyr cynorthwyol arbenigol;
- cydlynu tua 160 o sesiynau hyfforddi mewn AALlau bob blwyddyn;
- cyflwyno tua 25 o sesiynau hyfforddi bob blwyddyn; a
- chasglu arfarniadau o ddigwyddiadau hyfforddi a noddir gan CBAC.

24 Caiff y swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol ei gefnogi'n dda gan rwydwaith cynrychioliadol da o ymgynghorwyr ac ymarferwyr o bob cwr o Gymru. Mae'r arbenigwyr hyn yn cynnig gwybodaeth ac arbenigedd da a chyfredol o'u sectorau addysgol i'r swyddog datblygiad proffesiynol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd mewn timau o gydlynwyr ac fel gweithgorau i gynllunio a thrafod gwaith rhaglen yr hyfforddwr cenedlaethol ac i ddrafftio a golygu adnoddau ar gyfer cynhwysiad yn y pecynnau hyfforddi.

25 Mae dau grŵp llywio, un ar gyfer pob rhaglen hyfforddiant mewn swydd. Mae aelodau o'r grŵp llywio Cymraeg yn cynnwys uwch ymgynghorwyr mewn ALlau, swyddogion CBAC a chynrychiolydd o Estyn. Caiff aelodau o'r grŵp llywio cyfrwng Cymraeg sy'n gweithio i ALlau eu henwebu gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCCC). Mae'r rhain yn eistedd ochr yn ochr â swyddogion CBAC a chynrychiolydd o Estyn. Mae aelodaeth y grwpiau hyn yn sicrhau mai ALlau yw'r prif ysgogiad y tu ôl i'r rhaglen genedlaethol hyfforddiant mewn swydd.

26 Mae'r grŵp llywio Cymraeg yn gyfrifol am osod y cyfeiriad strategol ar gyfer y rhaglen genedlaethol hyfforddiant mewn swydd trwy nodi meysydd i'w datblygu yn seiliedig ar brofiadau lleol ac ar fentrau a blaenoriaethau cenedlaethol. Maent yn effeithiol wrth nodi meysydd i'w datblygu yn y ddarpariaeth eu hunain. Maent yn arfarnu anghenion hyfforddi cyffredinol staff yn eu meysydd trwy gysylltiadau ffurfiol ag ysgolion.

27 Caiff aelodau o'r grŵp adroddiadau arfarnu rheolaidd a chryno gan yr swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol ar lwyddiant digwyddiadau hyfforddi. Mae grŵp llywio'r Iaith Gymraeg hefyd yn gyfrifol am osod targedau penodol ar gyfer gweithgorau ac am adolygu'r adnoddau a gynhyrchir i sicrhau eu bod o ansawdd uchel a'u bod yn cynrychioli gwerth da am arian.

28 Mae pedwar gweithgor, un yr un ar gyfer:

- Cymraeg iaith gyntaf: cynradd;
- Cymraeg iaith gyntaf: uwchradd;
- Cymraeg ail iaith: cynradd a
- Chymraeg ail iaith: uwchradd.

29 Mae aelodau gweithgorau yn cynnwys athrawon neu athrawon ymgynghorol a enwebwyd gan eu ALlau o bob cwr o Gymru. Mae gweithgorau fel arfer yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Rhoddir tasg i bob gweithgor gynhyrchu deunyddiau ysgrifenedig, neu ddeunyddiau ar DVD neu CD-ROM i gefnogi hyfforddiant mewn swydd Cymraeg. Mae'r grwpiau hyn yn gweithio'n agos ochr yn ochr â'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol i ddatblygu adnoddau ansawdd uchel a ddefnyddir yn eang ledled Cymru.

30 Mae'r grŵp llywio ar gyfer hyfforddiant mewn swydd yr iaith Gymraeg yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn darparu arweinyddiaeth dda i'r rhaglen. Mae strwythur CBAC ar gyfer rheoli'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd Gymraeg wedi'i ddiffinio'n glir. Mae staff ALl ac athrawon yn teimlo bod y rhaglen yn effeithiol wrth gefnogi hyfforddiant mewn swydd y Gymraeg.

31 Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg wedi'u datblygu'n llawn. Er y bu'r grŵp llywio cyfrwng Cymraeg yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol y rhaglen yn y gorffennol, nid yw wedi cyfarfod er mis Ebrill 2005. Oherwydd hyn, nid yw'r grŵp llywio ar gyfer hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg wedi bod mor effeithiol o ran dylanwadu ar ddatblygiadau ar lefel genedlaethol o'i gymharu â rhaglen hyfforddiant mewn swydd yr iaith Gymraeg. Yn ogystal, nid oes yna unrhyw weithgorau penodol yn cael y dasg o ddatblygu deunyddiau hyfforddi i gefnogi hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg.

32 Mae gan CBAC gyswllt rheolaidd ac eang â'r Gymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)[2]. Mae ganddo ymwybyddiaeth gyffredinol o ddigwyddiadau a raglennir gan CYDAG. Fodd bynnag, nid yw CBAC wedi cyfarfod â CYDAG yn ystod y 18 mis diwethaf at ddiben cynllunio rhaglenni hyfforddiant ar y cyd. O'r herwydd, nid yw CBAC yn gwybod a yw ei ddarpariaeth yn dyblygu gwaith CYDAG.

[2] CYDAG yw'r gymdeithas o ysgolion ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n darparu ystod eang o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer athrawon sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynadleddau cenedlaethol

33 Bob blwyddyn, mae'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol yn trefnu pedair cynhadledd genedlaethol ddeuddydd ar gyfer:

- Athrawon Bro Cymru[3];
- anghenion dysgu ychwanegol;
- arweinwyr cwricwlwm Cymraeg; ac
- athrawon Cymraeg uwchradd.

34 Cynhelir y cynadleddau yn ystod tymor yr haf fel arfer mewn lleoliad yng nghanolbarth Cymru, ac maent yn denu athrawon, cydlynwyr iaith ac ymgynghorwyr o bob cwr o Gymru. Mae dros 300 o gynrychiolwyr yn mynychu'r cynadleddau hyn bob blwyddyn. Maent yn cynrychioli pob un o'r 22 ardal ALl yng Nghymru. Mae nifer y cynrychiolwyr sy'n mynychu pob cynhadledd yn parhau yn debyg o un flwyddyn i'r llall.

35 Nid yw CBAC yn defnyddio'i grant o'r CYG i dalu cost y pedair cynhadledd. Fodd bynnag, defnyddir rhan o'r grant i hwyluso'r broses o gynllunio'r cynadleddau. Mae cyfranogwyr, eu hysgolion neu ALlau yn talu ffi osodedig i fynychu'r gynhadledd. Mewn rhai achosion, mae athrawon yn defnyddio lwfans hyfforddi Cyngor Addysg Cyffredinol Cymru (CACC) i'w galluogi i fynychu'r cynadleddau. Fodd bynnag, mewn un ardal awdurdod lleol, ni all staff fynychu'r gynhadledd am y deuddydd oherwydd y costau sydd ynghlwm. Yn yr achos hwn, mae dau aelod o staff yn rhannu'r gynhadledd trwy fynychu am ddiwrnod yr un.

36 Mae staff ymgynghorol ALlau yn nodi bod y cynadleddau yn cynrychioli gwerth da am arian. Yn benodol, mae'r cynadleddau yn rhoi cyfleoedd da iawn i gyfranogwyr ddysgu gan arbenigwyr adnabyddus ac uchel eu parch o Gymru a'r tu hwnt. Mewn sawl achos, mae'r rhain yn cynnwys arbenigwyr di-Gymraeg mewn methodolegau addysgu sy'n rhoi syniadau newydd ac arloesol i gynrychiolwyr y gellir eu cymhwyso nid yn unig mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ond mewn ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd. Mae hyn yn aml yn golygu bod yn rhaid i CBAC dalu premiwm am y siaradwyr hyn. Fodd bynnag, mae hyn yn darparu gwerth da pan gaiff ei roi yng nghyd-destun nifer y cynrychiolwyr sy'n elwa ar yr hyfforddiant.

37 Mae'r pedair cynhadledd yn darparu cyfleoedd hyfforddiant cenedlaethol da. Maent hefyd yn rhoi cyfleoedd rhwydweithio gwerthfawr i ymarferwyr gyda chydweithwyr o bob cwr o Gymru. Yn benodol, mae cynhadledd Athrawon Bro Cymru yn rhoi'r unig hyfforddiant ffurfiol a gânt bob blwyddyn i lawer o Athrawon Bro.

38 Trwy ddadansoddi ffurflenni arfarnu yn gyffredinol, mae bron i 90% o gynrychiolwyr yn nodi bod y ddarpariaeth yn y cynadleddau naill ai'n dda neu'n dda iawn. Fodd bynnag, nid oes dadansoddiad ffurfiol o effaith yr hyfforddiant hwn ar ddisgyblion mewn ysgolion.

[3] Mae Athrawon Bro yn golygu athrawon Cymraeg sy'n gweithio mewn ysgolion ochr yn ochr ag athrawon dosbarth a/neu mewn canolfannau iaith.

Hyfforddiant

Dyrannu hyfforddiant

39 Caiff pob ALl ddyraniad neu gwota hyfforddiant blynyddol gan CBAC. Mae pob cwota gyfwerth â nifer o sesiynau hyfforddi y gellir eu trefnu trwy CBAC. Mae hyn yn galluogi ALlau i drefnu digwyddiadau hyfforddi trwy'r rhaglen hyfforddiant genedlaethol ar gyfer eu staff.

40 Cyfrifir y dyraniad neu'r cwota hyfforddiant i bob ardal ALl ar gyfer hyfforddiant mewn swydd Cymraeg yn ôl nifer y disgyblion oed ysgol yn ardal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn sicrhau bod cyfatebiaeth dda a theg rhwng lefel yr angen a nifer y cyfleoedd hyfforddi mewn ardaloedd ALl.

41 Mae'r cwota ar gyfer hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar nifer y disgyblion mewn awdurdodau lleol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn golygu bod cryn dipyn yn fwy o gyfleoedd hyfforddi ar gael i athrawon cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle mae canran uchel o ddisgyblion yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg na mewn ardaloedd lle caiff canran cymharol fach o ddisgyblion eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod angen i ysgolion ar hyd pob ardal awdurdod lleol gyflwyno cwricwlwm tebyg. Mae hyn yn golygu nad oes gwasgariad cyfartal o ddarpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar draws pob un o'r 22 ALl bob tro.

42 Bron ym mhob achos, mae dyraniad cwota hyfforddiant yn golygu bod pob ALl yn cael nifer osodedig o sesiynau hyfforddi gan CBAC yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol unigol. Fodd bynnag, mewn un ardal, caiff asiantaeth annibynnol sy'n gweithio ar ran dau ALl werth ariannol sy'n gyfwerth â'r dyraniad hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol gan CBAC. Y rheswm am hyn yw bod yr asiantaeth yn defnyddio'i staff ei hun i gyflwyno hyfforddiant ar ei rhan.

43 Mae pob ALl yn nodi ei flaenoriaethau hyfforddi ei hun ar gyfer y Gymraeg cyn mynd at CBAC gyda cheisiadau i ddefnyddio'u dyraniad hyfforddiant. Mae'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol yn gyfrifol am gydlynu'r hyfforddiant ac am ddefnyddio hyfforddwyr priodol. Bron ym mhob achos, mae staff ALl yn trafod eu hanghenion penodol gyda'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol er mwyn nodi'r hyfforddwr mwyaf priodol i'w ddefnyddio. At ei gilydd, mae ymgynghorwyr ALl yn dangos bod cyfatebiaeth dda rhwng anghenion a nodwyd gan ALlau a'r hyfforddiant a gyflwynir. Mae data arfarnu o sesiynau unigol a gasglwyd gan ALlau yn nodi lefelau uchel o foddhad â'r hyfforddiant.

44 Trwy'r trefniant hwn, mae staff ALl yn trefnu ystod eang o hyfforddiant yn eu hardaloedd. Mae'r rhain yn amrywio o gyrsiau i ddatblygu'r defnydd o gemau iaith i wella llefaredd i gynulleidfaoedd gydag awduron i drafod ystyr eu gwaith.

45 Mewn llawer o achosion, mae ALlau yn defnyddio mwy na'u cwota o sesiynau hyfforddi yn y rhaglen hyfforddiant mewn swydd Gymraeg. Fodd bynnag, mewn rhai

achosion, nid yw ALlau bob amser yn defnyddio'u dyraniad hyfforddiant cyfan bob blwyddyn. Yn yr achosion hyn, mae'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol yn trefnu cyfaddawd rhwng ALlau. Mae'r hyblygrwydd hwn yn galluogi'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol i barhau i gydlynu hyfforddiant mewn rhai ardaloedd daearyddol lle nodwyd bod angen mwy o hyfforddiant.

46 Fodd bynnag, nid yw CBAC yn blaenoriaethu ceisiadau ychwanegol am hyfforddiant. Ymdrinnir â nhw ar sail 'y cyntaf i'r felin'. Ar hyn o bryd, mae pob cais am hyfforddiant yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes systemau ar waith i flaenoriaethu angen pe bai lefel uchel o alw am sesiynau hyfforddi ychwanegol yn y dyfodol.

Hyfforddwyr cynorthwyol

47 Mae tua 80 o hyfforddwyr cynorthwyol arbenigol wedi'u henwi ar bob un o'r cofrestri ar gyfer rhaglen hyfforddiant mewn swydd iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg. Mae'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol yn dibynnu ar argymhellion a wnaed gan athrawon ac ymgynghorwyr wrth greu a chynnal rhestr o hyfforddwyr cymeradwy. Mae'r hyfforddwyr cynorthwyol ar y cofrestri naill ai'n athrawon profiadol neu'n hyfforddwyr. Fodd bynnag, nid oes meini prawf cytûn i'w bodloni er mwyn cael eich rhoi ar y gofrestr o hyfforddwyr cynorthwyol.

48 Mae'r gofrestr ar gyfer hyfforddwyr cynorthwyol Cymraeg yn cynnwys pob agwedd ar addysgu Cymraeg a Chymraeg fel ail iaith. Mae'r gofrestr ar gyfer hyfforddwyr cynorthwyol cyfrwng Cymraeg yn cynnwys pob un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol. Caiff y gofrestr ei hadolygu gan y swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol rhwng bob chwech a deuddeg mis. O ganlyniad, mewn nifer fach iawn o achosion lle mae gan staff ALl bryderon am ansawdd gwaith hyfforddwyr cynorthwyol, tynnwyd eu henwau oddi ar y gofrestr.

49 Mewn tua hanner yr ALlau yr ymgynghorwyd â nhw, mae hyfforddwyr cynorthwyol sydd eisoes yn gweithio i'r awdurdodau yn cyflwyno hyfforddiant ar gyfer staff fel rhan o hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg CBAC. Yn yr ardaloedd daearyddol hyn, mae'r hyfforddiant a gyflwynir gan CBAC ond ychydig bach yn wahanol i'r hyfforddiant a fyddai fel arfer ar gael i staff. Mewn un ardal yn benodol, nid yw'r elfennau hyfforddi a ddarperir trwy'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd cenedlaethol cyfrwng Cymraeg yn gwella'r hyfforddiant sydd ar gael fel arfer. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r cyllid sydd ar gael trwy raglen CBAC yn galluogi'r ALl i ddarparu mwy o hyfforddiant na'r hyn fyddai ar gael fel arfer.

50 Nodir defnydd ehangach a mwy cynhwysfawr o'r hyfforddwyr cynorthwyol ar y gofrestr hyfforddiant mewn swydd Cymraeg. Mae pob ymgynghorydd Cymraeg yn cynnig darpariaeth hyfforddiant. Mae darpariaeth CBAC yn gwella ehangder y cyfleoedd hyfforddi. Mae hyn yn sicrhau bod ffocws cenedlaethol i'r hyfforddiant y maent yn ei ddarparu. Mae hefyd yn rhoi hyfforddiant i athrawon wedi'i arwain gan arbenigwyr ac mewn rhai achosion mae hyn yn cynnwys beirdd ac awduron. Byddai'n anos trefnu hyn ar sail ALl unigol heb gefnogaeth CBAC. Caiff y gweithgareddau hyn eu gwerthfawrogi'n fawr gan athrawon ac ymgynghorwyr.

51 Mae gwaith yr hyfforddwyr cynorthwyol yn hyblyg iawn. Maent yn gweithio'n agos â'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol ac yn ymateb yn dda i'r anghenion a nodwyd gan unigolyn neu glystyrau o ALlau. Mae hyn yn golygu bod athrawon yn parhau i gael amrywiaeth dda o gyfleoedd hyfforddi mewn ALlau lle ceir nifer brin o ymgynghorwyr arbenigol.

52 Mewn llawer o ddigwyddiadau hyfforddi, rhoddir pwyslais da a phriodol ar ddatblygu a gwella medrau methodolegol athrawon. Gwna un ALl ddefnydd da o hyfforddwyr cynorthwyol i gefnogi athrawon sydd hefyd yn astudio 'Cwrs Iaith a Methodoleg Cymraeg ail iaith' (CIMCai) Prifysgol Bangor.

Deunyddiau hyfforddi

53 Yn ogystal â chydlynu rhaglen hyfforddi eang, mae CBAC trwy ei weithgorau hefyd yn datblygu ystod dda o ddeunyddiau hyfforddi. Mae'r rhain yn rhoi fframwaith da i staff ALl a phenaethiaid adrannau i ddarparu eu hyfforddiant mewn swydd eu hunain. Datblygir y deunyddiau hyn ar sail yr anghenion a nodir mewn ardaloedd awdurdod lleol neu drwy flaenoriaethau cenedlaethol.

54 Enghraifft dda yw'r cyhoeddiad diweddar 'Llythrennedd Deuol: Elwa ar ddwyieithrwydd i godi safonau yn y Gymraeg' sydd wedi'i fwriadu i wella safonau mewn Cymraeg trwy lythrennedd deuol[4] yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi enghreifftiau da i'r defnyddiwr o'r mathau o weithgareddau y gellid eu defnyddio i hyrwyddo datblygiad medrau llythrennedd deuol. Mae'n darparu gwersi enghreifftiol da ar ystod eang o bynciau fel hanes, daearyddiaeth, barddoniaeth a chelf. Mae'r arweiniad yn gwneud defnydd da o bapur trafod Estyn ar lythrennedd deuol ac mae'n tynnu sylw'n benodol at nodweddion y llythrennedd deuol a nodwyd ym mhapur Estyn. Mae hefyd yn rhoi syniadau da i athrawon ar sut i gynllunio gweithgareddau a fydd yn rhoi cyfleoedd da i ddysgwyr ymarfer eu medrau llythrennedd deuol.

55 Mae ymddangosiad gweledol deunyddiau wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Mae CBAC bellach yn cynhyrchu DVDs 'arfer dda'. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud amod y dylai'r holl ddeunyddiau a gynhyrchwyd gan CBAC yn ddiweddar trwy ddefnyddio grant CYG, sy'n addas ar gyfer cymhwysiad TGCh, fod ar gael ar-lein trwy NGfL Cymru. O ganlyniad, mae pob adnodd addas ar gael ar-lein. Ceir mynediad hawdd i wefan NGfL o hafan CBAC. Mae'r deunyddiau ar-lein hyn yn rhoi hyblygrwydd i athrawon a hyfforddwyr ddewis ac addasu deunyddiau i fodloni anghenion eu dysgwyr. Mae hyn yn golygu hefyd y caiff pob athro fynediad uniongyrchol i'r deunyddiau cyhoeddedig.

56 Ceir cydweithio da ac effeithiol rhwng athrawon a'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol i ddatblygu adnoddau ansawdd uchel. Er enghraifft, mae athrawon sy'n gweithio mewn lleoliadau cynradd cyfrwng Saesneg ac yn dilyn cwrs CIMCai wedi gweithio'n agos â'r hyfforddwr cenedlaethol trwy eu ALl i ddechrau a datblygu adnodd DVD CBAC sy'n rhannu arfer dda mewn asesu iaith ar gyfer dysgu yng nghyfnodau allweddol un a dau. Gellir gwneud defnydd hyblyg o'r math hwn o adnodd naill ai mewn amgylchedd hyfforddiant ffurfiol neu ar sail breifat neu unigol.

[4] Llythrennedd deuol yw'r gallu i symud yn hyderus ac yn ddidrafferth rhwng ieithoedd at wahanol ddibenion. Yn y cyd-destun hwn, mae a wnelo llythrennedd deuol â Chymraeg a Saesneg.

57 Yng ngwasanaeth ymgynghorol un clwstwr o awdurdodau lleol, mae grŵp o athrawon dylunio a thechnoleg o leoliadau cyfrwng Cymraeg uwchradd wedi gweithio'n agos â'r rhaglen genedlaethol i rannu arfer dda a chreu adnoddau da ar-lein trwy NGfL Cymru. Yn yr achos hwn, mae athrawon a disgyblion yn elwa ar yr adnoddau hyn.

58 Mae'r deunyddiau hyfforddi a grëwyd gan CBAC wedi'u paratoi'n dda ac wedi'u cyflwyno'n dda. Cânt eu gwerthfawrogi gan athrawon ac ymgynghorwyr ac maent yn helpu lledaenu arfer dda ar lefel genedlaethol. Maent yn gwahaniaethu'n glir rhwng cyfnodau allweddol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae swyddogion ALl yn teimlo bod yr arfer hon o labelu cyfnodau allweddol yn rhwystro athrawon rhag bod yn agored i arfer dda a arsylwyd mewn cyfnodau allweddol sy'n wahanol i'w rhai nhw.

59 Caiff pob ALl a'u hysgolion gopïau o'r holl ddeunyddiau hyfforddi a gynhyrchir gan y gweithgorau yn ddi-dâl. Mae'r holl staff ALl a gyfwelwyd yn nodi y cânt eu defnyddio'n eang gan athrawon ymgynghorol ac athrawon â'u hardaloedd awdurdod lleol. Mae staff ALl yn gwneud defnydd da ohonynt i gefnogi hyfforddiant mewn swydd mewnol na chaiff ei drefnu trwy'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol.

60 Mewn nifer fach iawn o achosion, ceir dyblygu rhwng y deunyddiau a gynhyrchwyd gan staff ALl a'r deunyddiau a gyhoeddwyd gan CBAC. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod staff ALl yn gallu ymateb yn gyflymach i anghenion hyfforddi penodol nag y mae strwythur gweithgorau CBAC yn ei ganiatáu. Lle bo hyn yn wir, nid yw CBAC yn gweithio'n ddigon effeithlon bob tro i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau presennol.

Arfarnu

61 Mae CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i bob ALl ofyn am farn staff sy'n mynychu digwyddiadau hyfforddi a gyflwynir gan y swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol neu hyfforddwyr arbenigol ychwanegol. Defnyddia'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol y wybodaeth hon i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid oes fformat cyffredin ar draws ALlau i gasglu barn staff ar ansawdd yr hyfforddiant. Nid yw CBAC yn rhoi arweiniad i ALlau ar y wybodaeth y mae angen iddynt ei chasglu i arfarnu'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae gwahaniaethau o ran math ac ansawdd y wybodaeth a gesglir ym mhob ardal awdurdod lleol. Er enghraifft, mewn llawer o achosion, mae ALlau yn gofyn i'w staff ddefnyddio graddfa pum pwynt i arfarnu cyrsiau, tra bod ALlau eraill yn defnyddio graddfa pedwar pwynt. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd nodi meysydd perfformiad da neu wael yn gyson.

62 Mae'n ofynnol i bob ALl anfon llungopïau o ffurflenni arfarnu cyrsiau at CBAC fel un o amodau cael hyfforddiant. Yna, mae'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol yn paratoi dadansoddiad o ganfyddiadau'r ffurflenni arfarnu i'w trafod yn ystod cyfarfodydd y grŵp llywio. Mae'r rhan fwyaf o'r arfarniadau yn dangos bod yr hyfforddiant a gafwyd naill ai'n dda neu'n dda iawn.

63 Mae gan CBAC weithdrefnau ffurfiol cyfyngedig ar waith i arfarnu gwaith hyfforddwyr unigol. Nid yw swyddogion CBAC yn arsylwi hyfforddwyr cynorthwyol i sicrhau ansawdd a phriodoldeb eu gwaith. Mae ymgynghorwyr ALl yn mynychu llawer o ddigwyddiadau hyfforddi ac yn adrodd yn ôl i'r hyfforddwr cenedlaethol os yw'r hyfforddiant yn wan. Er bod y system hon wedi arwain at dynnu enw un hyfforddwr cynorthwyol oddi ar y gofrestr yn y gorffennol, nid yw'n ddigon effeithiol i sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro yn gyson, i nodi meysydd arfer dda a rhagorol neu i nodi meysydd pryder yn gyflym.

64 Mae ALlau yn gwneud defnydd da o ffurflenni arfarnu cyrsiau i nodi eu hamgyffrediadau uniongyrchol o'r hyfforddiant a gânt. Gan nad oes unrhyw broses arsylwi ffurfiol, maent yn ddefnyddiol o ran helpu'r swyddog datblygiad proffesiynol cenedlaethol i lunio barn ynghylch a yw athrawon yn fodlon â'r hyfforddiant a gyflwynir ar ran CBAC. Fodd bynnag, nid yw'r math hwn o arfarniad yn galluogi CBAC i fonitro effaith ei hyfforddiant.

65 Nid yw CBAC yn mesur yn ffurfiol y graddau y mae ei adnoddau a'i hyfforddiant yn effeithio ar wella safonau cyrhaeddiad cyffredinol mewn Cymraeg, Cymraeg ail iaith neu waith trwy gyfrwng y Gymraeg.

66 Mae un asiantaeth sy'n darparu gwasanaeth ymgynghorol ar gyfer dwy ardal awdurdod lleol yn monitro effaith ei chyrsiau ar safonau ac ansawdd addysgu. Fodd bynnag, ni thrafodwyd canlyniadau'r ymarfer hwn gyda staff CBAC eto. Mewn rhai achosion, mae staff ALl yn ystyried dewisiadau i staff hunanasesu eu datblygiad eu hunain yn sgil mynychu hyfforddiant, ond nid yw'r systemau hyn wedi cael eu rhoi ar waith eto.

67 Nid yw'r Adroddiad Cytundeb Lefel Gwasanaeth a gyhoeddir yn flynyddol gan CBAC yn rhoi digon o wybodaeth am lwyddiant y rhaglen wrth wella safonau.

Gwerth am arian

68 Mewn rhai achosion, mae ALlau yn gofyn i ysgolion dalu ffi cwrs i'w staff fynychu cwrs a noddir gan y CYG/CBAC. Mae hyn yn ogystal â chost athrawon llanw a gyflogir gan ysgolion i ryddhau staff i fynychu'r digwyddiadau hyfforddi hyn. Mewn rhai achosion, defnyddia ysgolion gyllid CYG i dalu ffi'r cwrs i staff fynychu cyrsiau hyfforddi. Mae hyn yn golygu bod cyllid y CYG yn cael ei ddefnyddio ddwywaith i ariannu'r digwyddiadau hyfforddi hyn.

69 Mae'r defnydd a wna ALlau o'u dyraniad neu eu cwota hyfforddiant yn cynrychioli gwerth da am arian. Lle bynnag y bo'n bosibl, mae ALlau yn cydweithio â'i gilydd i rannu digwyddiadau hyfforddi a sicrhau bod y dyraniad hyfforddiant yn ymestyn mor bell â phosibl. Er enghraifft, mae un ALl yng ngogledd ddwyrain Cymru yn gweithio'n agos ag ALl yng nghanolbarth Cymru i rannu sesiynau hyfforddi. Mewn enghraifft arall, mae gwasanaeth ymgynghorol sy'n gweithio ar ran clwstwr o ALlau yn rhoi gwybodaeth i staff o ALlau eraill am ei ddigwyddiadau hyfforddi.

70 Mewn rhai achosion, mae ALlau yn greadigol yn y ffordd y maent yn defnyddio'u dyraniad hyfforddiant. Mewn un clwstwr o ALlau o ganolbarth a de orllewin Cymru, mae staff yn trefnu mwy nag un sesiwn hyfforddi gyda CBAC ar gyfer yr un diwrnod. Mae'r clwstwr o ALlau yn trefnu i fwy nag un grŵp o athrawon fynychu'r digwyddiad hyfforddi. Yna, maent yn cyfnewid yr hyfforddwyr cynorthwyol arbenigol yn rheolaidd rhwng y grwpiau gwahanol. Mae hyn yn golygu y gall mwy nag un grŵp o athrawon elwa ar waith hyfforddwyr CBAC mewn unrhyw ddigwyddiad diwrnod unigol. Mae hyn yn golygu bod yr ALlau dan sylw ond yn defnyddio deuddydd o'r dyraniad hyfforddiant yn hytrach na'r pedwar diwrnod y byddai hyn yn ei gostio pe baent yn trefnu hyfforddwyr mewn sesiynau ar wahân.

71 At ei gilydd, mae rhaglen genedlaethol hyfforddiant mewn swydd yr iaith Gymraeg wedi'i threfnu'n dda ac yn cael ei defnyddio'n dda ar draws pob awdurdod lleol sy'n cymryd rhan yn yr arolwg hwn. Mae'n cynnig gwerth da am arian. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer cyflwyno hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg wedi'u datblygu cystal. Nid yw'r strwythur cyfredol ar gyfer rheoli'r rhaglen hyfforddi cyfrwng Cymraeg mor effeithiol o ran dylanwadu ar ddatblygiadau ar lefel genedlaethol.

72 Nid yw CBAC yn gweithio gyda phartneriaid i fonitro canlyniadau ei hyfforddiant yn ddigon agos i sicrhau ei fod yn rhoi gwerth da am arian yn ei raglenni hyfforddiant, drwy nodi pa effaith a gaiff ei ddarpariaeth ar safonau.

73 Mae CBAC yn rhoi crynodebau ariannol wedi'u harchwilio'n annibynnol o wariant rhaglen i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ôl y gofyn er mwyn cael taliadau grant. Ar gyfer 2006-07, roedd hawliad y grant yn seiliedig ar wariant o tua £198,000. Mae'r gyfradd hon o ddefnydd yn cyd-fynd â hawliadau grant y rhaglen mewn blynyddoedd blaenorol.